# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher, 09.02.22 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril
**Yn dilyn rheolau diogelwch Cofid-19**

Presennol: **Kevin Goodchild** - Cadeirydd - (KG), **Keith Carroll** - Is-gadeirydd (KC), **Huw Davies** (HD), **Dylan Thomas** (DT), **Jenny Warne** (JW), **Geraint Edwards** (GE), **Geraint Micah** (GM), **David Griffiths** (DG), **Debbie Taylor-Bond**- Clerc - (DTB).

1. **Ymddiheuriadau:** Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Ian Williams, John Griffiths.

2. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 26.01.22 fel rhai cywir.
   **Cynnig** – Keith Carroll **Eilio** – Geraint Edwards **Arwyddwyd** – Kevin Goodchild.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (26.01.2022):**
   - **Prosiectau Cymunedau Bach** - Cytunwyd i archebu mainc blastig i'w gosod yn Rhoslefain.
     Cais am grant cymunedol bach o £250 wedi ei wneud - sef 50% o bris disgwyliedig y fainc newydd.
     **Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio:** Keith Carroll

   - **Newid y Cyfrif Banc** – Llofnodwyd yr holl ddogfenau perthnasol.
     Natwest wedi anfon y ffurflenni anghywir, felly angen llofnodi ffurflenni newydd.
     Cais i'w ail-gyflwyno cyn gynted â phosibl, gan fod nifer o anfonebau yn dal heb eu talu.
     Caiff rhain eu talu cyn gynted â phosibl unwaith bydd y cyfrif newydd wedi ei agor.
     **I'w weithredu gan DTB**

   - **Tyrchod daear yn y cae chwarae yn Llwyngwril –>** cadarnhawyd fod hyn yn "waith ar y gweill"
     **I'w weithredu gan GM**

   - **Coeden Nadolig –** cadarnhawyd fod y llythyr a anfonwyd gan y Cyngor Cymuned, i ddiolch am y rhodd o'r Goeden Nadolig wedi cael ei dderbyn.

   - **Ymgynghoriad Ail Gartrefi -** Trafodwyd y dogfennau a dderbynwyd ynglyn a'r ymgynghoriad yma.
     Unrhyw sylwadau ar yr ymgynghoriad i'w darparu ac i'w rhoi i'r Clerc i'w cyflwyno.

   - **Torri gordyfiant yn Rhoslefain** - Cadarnhawyd fod hyn bellach wedi'w ddatrys.

   - **QR Historypoints** – Ymholiad am arwydd newydd i'w ddarparu gan History Points.
     Cysylltu a'r Eglwys ynghylch y posibilrwydd o osod yr arwydd ar giat y fynwent yn ymyl y gof golofn.
     **I'w weithredu gan DTB**

   - **Materion Priffyrdd** – materion yn dal i aros am ymateb gan Adran Priffyrdd, Cynogr Gwynedd:
     - Difrod i wal – ochr chwith ger Y Nant, Llwyngwril
     - Adnewyddu llinellau dwbl melyn a baeau yn y meysydd parcio
     - Llwybr i'r traeth – cyflwr y llwybr
     - Ffordd yr Orsaf – cais gan drigolion y gymuned am ffens neu giat
     - Clirio sianeli draenio

   - **Network Rail – Simon Roberts i gynrychiolu NWR yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned - Mis Mawrth.**

5. **Gohebiaeth**:
   - **Cyngor Gwynedd –** Rhaglen waith i ardal Llangelynnin am Chwefror 2022 wedi ei derbyn gan Gyngor Gwynedd Llwybr ceffyl – (32) – yn Rhoslefain. Coeden angen ei chlerio.

6. **Materion Cynllunio**:
   - **Pont y Bermo -** gwaith uwchraddio ac ailosod rhai rhannau dur y bont. Gwaith i gychwyn 01.03.22. Trafodwyd ond ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad ariannol wedi ei gwblhau.
   Derbyniwyd Adroddiad Mis Ionawr 2022 yn gywir.
   **Cynnig –** Geraint Edwards **Eilio –** Keith Carroll **Arwyddwyd –** Kevin Goodchild.

   **Anfonebau i'w talu pan fydd y cyfrif banc newydd wedi'w agor:-**
   Cyngor Gwynedd - tori gwair = £1,060.00
   G Williams (gwaith trydannol i'r goleuadau Nadolig) = £89.21
   G Micah – cynnal a chadw'r llwybrau = £259.20

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr**: Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol**: Dim yn bresennol

10. **Unrhyw Fater Arall**:

    a) **Dyfyniadau ar gyfer torri gwair 2022:**

    - ***Geraint Micah a David Griffiths wedi datgelu buddiant personol, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurfleni, ac wedi gadael y cyfarfod gan fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, tra'r oedd yr aelodau yn trafod pwy i ofyn am bris.***

Cafwyd trafodaeth ar faint y gwaith a chynigwyr tebygol. Cytunwyd i anfon y "specs" at dri contractwr.
**I'w weithredu gan DTB**

DTB i sicrhau fod ffurflenni "Datgan Diddordeb" wedi'u llenwi ac yn cael eu cadw ar ffeil.

- ***Dychwelodd Geraint Micah a David Griffiths i'r cyfarfod.***

b) **Ymholiad gan Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd ynglŷn â chynnig llwybr troed gylchol newydd yn Llwyngwril.** Gofyn i gynrychiolydd o'r Adran Hawliau Tramwy,Cyngor Gwynedd, fynychu'r cyfarfod nesaf, i drafod y cynnig yma yn fwy manwl.
**I'w weithredu gan GM**

c) **Cae Chwarae –** cadarnhawyd bod y rhodd o £4,000 yn dal i fod ar gael ac unwaith y bydd yr archeb wedi ei gyflwyno, bydd yr offer yn cymryd tua 8 wythnos i'w gyflenwi.

d) **Anfoneb Coed Nadolig** – Cyngor Cymuned yn dal heb dderbyn anfoneb am y Coed Nadolig i Roslefain – 2020 a 2021. Ymholiadau i'w gwneud ynglyn a'r anfonebau yma.
**I'w weithredu gan DTB**

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 09.03.22 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………… Dyddiad ………………………………**